

## Ffurflen Gais Deddf Tai (Cymru) 2014

Apeliadau yn ymwneud â phenderfyniadau trwydded gweithgareddau gosod a gweithgareddau rheoli eiddo

**Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau isod yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen hon.**

**Ysgrifennwch yn glir gan ddefnyddio inc DU, os gwelwch yn dda.**

**Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys i gael fersiwn Saesneg o'r ffurflen hon.**

Hon yw'r ffurflen briodol i'w defnyddio os ydych chi'n landlord annedd sy'n ddarostyngedig i denantiaeth ddomestig neu'n berson sy'n gweithredu ar ran landlord (asiant) annedd sy'n cael ei marchnata neu ei chynnig ar gyfer ei gosod o dan denantiaeth ddomestig neu sy'n ddarostyngedig i denantiaeth ddomestig, ac rydych yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu, sef;

- rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amod (ac eithrio'r gofyniad i gydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer a ddyroddir gan Weinidogion Cymru);
- gwrthod cais am drwydded;
- diwygio trwydded;
- dirymu trwydded.

### **Nodyn i'r Ceiswyr**

Cynghorir Ceiswyr ei bod yn bosib y bydd unrhyw wybodaeth y maent yn ei rhoi i'r Tribiwnlys yn cael ei chofnodi mewn dogfen benderfyniad. Mae pob penderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd.

### **Dogfennau**

Mae'n rhaid ichi anfon y ddogfen/dogfennau canlynol ("dogfen/dogfennau angenrheidiol") gyda'r cais hwn:

**Pan fo deiliad trwydded yn apelio yn erbyn amodau'r drwydded;**

- Copi o hysbysiad o fwriad yr awdurdod trwyddedu i wneud y drwydded yn ddarostyngedig i amod, a'r rhesymau dros ei benderfyniad;
- Copi o'r hysbysiad sy'n gwneud y drwydded yn ddarostyngedig i amod;
- Unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais;
- Copi o'r Drwydded.

**Pan wneir apêl yn erbyn gwrthod rhoi trwydded (gan gynnwys gwrthod oherwydd nad yw'r awdurdod trwyddedu yn fodlon bod y ceisydd yn addas a phriodol i gael ei drwyddedu);**

- Copi o'r hysbysiad sy'n cyflwyno'r rhesymau dros y gwrthodiad arfaethedig;
- Copi o'r penderfyniad i beidio â rhoi trwydded, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.
- Unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

## **Pan fo deiliad trwydded yn apelio yn erbyn diwygio neu ddirymu trwydded;**

- Copi o hysbysiad yr awdurdod trwyddedu o'i fwriad i ddiwygio neu ddirymu'r drwydded;
- Copi o unrhyw sylwadau a wnaed mewn ymateb i hysbysiad yr awdurdod trwyddedu o'i fwriad i ddiwygio neu ddirymu'r drwydded;
- Copi o'r penderfyniad i ddiwygio neu ddirymu'r Drwydded ynghyd â'r penderfyniadau dros wneud hynny;
- Copi o'r Drwydded.
- Unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

Oni fyddwch yn anfon y ddogfen/dogfennau angenrheidiol, gallai olygu na fydd y cais hwn yn ddilys.

Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill ar hyn o bryd. Pan ac os bydd angen rhagor o wybodaeth, tystiolaeth neu ddogfennau arnom, byddwn yn gofyn i chi eu hanfon ar wahân.

### **Terfyn Amser**

Rhaid cyflwyno apêl cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar y dyddiad yr hysbyswyd y Ceisydd am y penderfyniad ("y cyfnod apelio").

Efallai y bydd y tribiwnlys yn caniatáu i chi wneud apêl iddo ar ôl i'r cyfnod apelio ddod i ben os yw'n fodlon bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw a thros unrhyw oedi cyn gofyn am ganiatâd i apelio y tu allan i'r cyfnod apelio.

### **Ffi Gwneud Cais**

Oni bai bod gennych hawl i hepgoriad, mae'n rhaid i chi anfon y Ffi Gwneud Cais, sef **£155**, gyda'r cais a'r dogfennau angenrheidiol. Rhaid talu'r Ffi drwy archeb bost yn enw "Llywodraeth Cymru" neu siec wedi'i chroesi wedi'i gwneud yn daladwy i "Llywodraeth Cymru".

Peidiwch ag anfon arian parod o dan unrhyw amgylchiadau. Ni fyddwn yn derbyn taliadau mewn arian parod.

### **Sylwer:**

Os nad ydych yn anfon y ffi gywir yn enw neu'n daladwy i "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" neu os byddwch yn anfon arian parod, byddwn yn anfon y cais a'r arian parod yn ôl atoch ar eich cyfrifoldeb eich hun.

### **Hepgor Ffioedd**

Os yw'r Ceisydd/Ceiswyr neu bartner/partneriaid y Ceisydd/Ceiswyr yn cael rhai budd-daliadau penodol sy'n seiliedig ar incwm, gellir hepgor y Ffi Gwneud Cais.

I hawlio hepgor y Ffi Gwneud Cais, mae'n rhaid i'r Ceisydd/Ceiswyr sy'n cael budd-dâl neu'r Ceisydd/Ceiswyr sydd â phartner/partneriaid sy'n cael budd-dâl o'r fath, lenwi ffurflen gais ar gyfer hepgor ffioedd. Mae hon ar gael gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Ni fydd partïon eraill yn cael copi o hon.

Ni fydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn derbyn ceisiadau drwy FFACS na dros yr E-bost.

Llenwch y ffurflen gais a'i hanfon gyda'r ffi (neu ffurflen hepgor ffioedd wedi'i llenwi) a'r dogfennau angenrheidiol i'r cyfeiriad isod:

**Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl  
Oak House  
Cleppa Park  
Celtic Springs  
Casnewydd  
NP10 8BD**

Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn y Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi mewn ymateb.

Cewch gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Rhowch wybod i'r tribiwnlys beth yw eich dewis iaith, drwy lenwi blwch 3 isod.

## 1. MANYLION YR EIDDO

Cyfeiriad yr Eiddo: \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

## 2. MANYLION Y CEISYDD

Enw'r Ceisydd: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad (*gan gynnwys cod post*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Cyfeiriad ar gyfer gohebu (*os yw'n wahanol*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Rhif Ffôn: *Dydd:* \_\_\_\_\_ *Nos:* \_\_\_\_\_ *Symudol:* \_\_\_\_\_

Cyfeiriad e-bost: \_\_\_\_\_

Statws (Landlord/Asiant): \_\_\_\_\_

Enw, Cyfeiriad a manylion y Cynrychiolydd (os yn berthnasol): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Os oes mwy nag un Ceisydd, rhowch fanylion ar dudalen ar wahân.

*Lle rhoddir manylion cynrychiolydd, gyda'r cynrychiolydd hwnnw y bydd y tribiwnlys yn cyfathrebu ac yn gohebu bob amser hyd nes y caiff ei hysbysu nad yw'r cynrychiolydd bellach yn gweithredu ar ran y Ceisydd.*

## 3. DEWIS IAITH

**Nodwch eich dewis iaith:**

Gohebiaeth ysgrifenedig? Cymraeg / Saesneg (rhaid dileu fel sy'n briodol)

Cyfathrebu ar lafar? Cymraeg / Saesneg (rhaid dileu fel sy'n briodol)

Hoffech chi siarad Cymraeg mewn unrhyw achos cyfreithiol a all godi yn sgil y cais hwn h.y. gwrandawriad tribiwnlys neu adolygiad cyn-treial?

Hoffwn / Na hoffwn (rhaid dileu fel sy'n briodol)

#### 4. MANYLION YR ATEBYDD

Enw'r Awdurdod Trwyddedu: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad (*gan gynnwys cod post*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Cyfeiriad ar gyfer gohebu (*os yw'n wahanol*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Cyfeirnod: \_\_\_\_\_

Rhif Ffôn: *Dydd:* \_\_\_\_\_

*Nos:* \_\_\_\_\_

*Symudol:* \_\_\_\_\_

Cyfeiriad e-bost (*os yw'n hysbys*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

#### 5. MANYLION Y LANDLORD (OS NAD YDYNT WEDI'U RHOI'N BAROD)

Enw: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad (*gan gynnwys cod post*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Cyfeiriad ar gyfer gohebu (*os yw'n wahanol*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Cyfeirnod: \_\_\_\_\_

Rhif Ffôn: *Dydd:* \_\_\_\_\_

*Nos:* \_\_\_\_\_

*Symudol:* \_\_\_\_\_

Cyfeiriad e-bost (*os yw'n hysbys*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

## 6. MANYLION UNRHYW BERSONAU SYDD Â BUDDIANT

Mae angen i'r Tribiwnlys wybod enwau a chyfeiriadau pobl eraill a allai gael eu heffeithio'n sylweddol gan y cais hwn megis tenantiaid neu feddianwyr yr adeilad.

Enw'r person sydd â buddiant: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad (*gan gynnwys cod post*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Enw'r person sydd â buddiant: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad (*gan gynnwys y cod post*): \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Os oes rhagor o bersonau â buddiant, rhowch y manylion ar dudalen ar wahân.

## 7. Math o Gais

Nodwch eich cais drwy roi tic yn y blwch priodol:

Apêl yn erbyn rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amod	
Apêl yn erbyn gwrthod cais am drwydded	
Apêl yn erbyn diwygio trwydded	
Apêl yn erbyn dirymu trwydded	

Y dyddiad yr hysbyswyd y Ceisydd am y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn:

\_\_\_\_\_

Nodwch isod sut yr hysbyswyd y ceisydd am y penderfyniad (er enghraifft, drwy'r post, e-bost):

\_\_\_\_\_

## 8. APÊL AR ÔL I'R CYFNOD APELIO DDOD I BEN

Os ydych chi'n ceisio cael caniatâd i apelio ar ôl i'r cyfnod apelio ddod i ben, (gweler tudalen 1 y ffurflen hon) yna nodwch eich rhesymau dros beidio ag apelio yn ystod y cyfnod apelio a thros unrhyw oedi cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio y tu allan i'r cyfnod hwnnw:

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

## 9. GWYBODAETH YCHWANEGOL

Nodwch yn gryno pam rydych chi'n credu y dylai'r Tribiwnlys ganiatáu'r apêl:

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

## 10. CEISIADAU ERAILL

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw geisiadau sydd NAILL AI'N cynnwys materion sy'n ymwneud â'r un eiddo NEU sy'n ymwneud ag eiddo arall lle mae'r un partion ynghlwm â'r eiddo hwnnw (naill ai fel Ceisydd neu Atebydd)?

Os felly, rhowch fanylion, gan gynnwys rhif(au) cyfeirnod yr achos(ion). Caiff y Tribiwnlys orchymyn bod yn rhaid ymdrin â rhai o'r geisiadau neu faterion penodol a godir yn y geisiadau hynny ar yr un pryd, neu bob un ohonynt.

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

## 11. ALLWN NI DDELIO Â'CH CAIS HEB WRANDAWIAD?

Mae'n bosib delio â'ch cais yn gyfan gwbl ar sail sylwadau ysgrifenedig ("penderfyniad ar bapur") OND DIM OND:

- Os bydd y Tribiwnlys yn meddwl bod hynny'n briodol ac
- Os nad yw unrhyw barti yn gofyn am wrandawiad.

Hyd yn oed os ydych chi'n cytuno i benderfyniad ar bapur

- Efallai y bydd y Tribiwnlys, serch hynny, yn penderfynu bod gwrandawiad llafar yn angenrheidiol.
- Gallwch chi neu unrhyw barti arall ofyn am wrandawiad llafar o hyd ar unrhyw bryd cyn y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud.

Ydych chi'n cytuno i'r cais hwn gael ei benderfynu heb wrandawiad llafar?

YDW

NAC  
YDW

**GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD YN LLENWI POB RHAN O'R FFURFLEN HON, GAN DYBIO Y BYDD GWRANDAWIAD LLAFAR YN CAEL EI GYNNAL.**

## 12. FAINT O FRYYS SYDD I GAEL PENDERFYNIAD

Dywedwch wrthym a oes brys penodol i gael penderfyniad am yr achos hwn, ac os felly, pam?

---

---

---

---

---

## 13. BOD AR GAEL

A wnewch chi roi gwybod i ni isod os oes unrhyw ddyddiau neu ddyddiadau yn y tri mis nesaf y bydd yn rhaid i ni eu hosgoi (naill ai oherwydd nad ydynt yn hwylus i chi neu oherwydd nad ydynt yn hwylus i unrhyw dyst neu arbenigwr y byddech yn dymuno ei alw).

Dyddiadau pan **NAD** ydych chi ar gael:

---

---

---



## 14. GOFYNION O RAN Y LLEOLIAD

Rhowch fanylion unrhyw ofynion arbennig sydd gennych chi neu unrhyw un a fydd yn dod gyda chi (e.e. mynediad i gadair olwyn, presenoldeb cyfieithydd). Bydd gwybod beth yw eich anghenion o gymorth i'r Tribiwnlys wrth iddo wneud trefniadau.

---

---

---

---

## 15. DATGANIAD GWIRIONEDD

*Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y cais hwn yn wir.*

Llofnod:

Enw (mewn PRIF  
LYTHRENNAU):

Statws (os yw'n briodol):

Dyddiad:

---

---

---

---

## RHESTR WIRIO

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Cwblhau'r ffurflen hon YN LLAWN.
- Cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol.
- Cynnwys y ffi briodol neu gais am hepgoriad.

Ni fydd y Tribiwnlys yn prosesu eich cais os nad ydych wedi gwneud hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r ffurflen hon neu'r weithdrefn y bydd y Tribiwnlys yn ei defnyddio, cysylltwch â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl ar 0300 025 2777 neu anfonwch e-bost at [rpt@llyw.cymru](mailto:rpt@llyw.cymru)

**SYLWCH NAD YW'R TRIBIWNLYS YN GALLU RHOI CYNGOR CYFREITHIOL.**